

# Polisi Preifatrwydd Cleientiaid SNAP Cymru

## Polisi Preifatrwydd Cleientiaid

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn egluro sut yr ydym ni'n defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi wrth ddefnyddio gwasanaeth SNAP Cymru. Mae gennych chi'r hawl i ddisgwyl y bydd unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych chi'n ei darparu yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Wrth inni ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, rydym ni'n cydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein Hymrwymiad

Pan yr ydym yn gofyn i chi am eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn:

- Egluro pam yr ydym ei hangen
- Gofyn yn unig am yr hyn yr ydym ei angen
- Ei thrin yn gyfrinachol

Pan yr ydym yn cofnodi eich gwybodaeth, byddwn yn:

- Rhannu beth sy'n angenrheidiol ac yn berthnasol yn unig gyda chaniatâd
- Ei diogelu a sicrhau nad oes unrhyw un na ddylai yn cael mynediad ati

Rhoddir hyfforddiant i'n holl staff sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol.

## Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu amdanoch chi?

Er mwyn eich helpu chi gyda'ch ymholiad, rydym ni angen cofnodi manylion eich achos. Gall y manylion hyn gynnwys data personol a sensitif.

- Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch chi pan ydych yn cysylltu â ni am gyngor a chefnogaeth
- Rydym ni hefyd yn casglu gwybodaeth pan ydych chi'n cael eich atgyfeirio at ein gwasanaeth gan unrhyw weithiwr proffesiynol sydd eisoes wedi derbyn eich caniatâd i rannu eich data a gwneud yr atgyfeiriad. Byddwn yn cadarnhau eich caniatâd pan ydym ni'n cynnig gwasanaeth gwaith achos i chi.

## Rhoi Caniatâd

Er mwyn cydymffurfio â'r Gyfraith, mae'n rhaid inni ofyn am eich caniatâd i gofnodi, defnyddio neu storio eich data personol a sensitif.

- Os ydych chi'n rhoi caniatâd, rydych chi'n dweud y gallwn ni gofnodi a defnyddio eich data personol i'ch helpu chi gyda'ch problem(au) a'ch achos.
- Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i wirio bod yr unigolyn sy'n rhoi caniatâd, mewn gwirionedd, â Chyfrifoldeb Rhieni dros y plentyn.
- Byddwn yn cadw cofnod o sut a pha bryd y gwnaethoch roi caniatâd.

# Polisi Preifatrwydd Cleientiaid SNAP Cymru

- Gallwch chi dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw bryd a bydd y data yn cael ei ddileu.

## Sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?

- Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch chi a'ch plentyn er mwyn prosesu eich achos, ac os ydych chi'n cytuno, er mwyn gohebu â chi, darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gwaith achos a darparu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau yr ydym yn meddwl a all fod yn ddefnyddiol i chi.
- Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ddiennw (heb unrhyw fanylion personol) ar gyfer adrodd a gwerthuso ac er mwyn ein helpu ni i ddeall sut mae problemau gwahanol yn effeithio pobl a gweithredu er mwyn ymdrin â'r problemau hyn.
- Gallwn ni ofyn i chi am eich barn neu sylwadau ynglŷn â'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu neu roi gwybod i chi am newidiadau i'n gwasanaethau.
- Gallwn ni anfon gohebiaeth atoch yr ydych wedi gofyn amdani. Gall y rhain gynnwys taflenni gwybodaeth a chanllawiau.

## Defnyddio eich data ar gyfer Archwiliad Marc Ansawdd Arbenigwyr (MAA)

Rydym yn ddeiliaid y Marc Ansawdd Arbenigwyr (MAA) sy'n safon sicrwydd ansawdd angenrheidiol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac mae wedi cael ei gynllunio ar gyfer sefydliadau sy'n cyflenwi cefnogaeth i waith achos arbenigol a help cyfreithiol cymhleth, yn cynnwys cynrychiolaeth mewn tribiwnlys. Rydym yn cael ein harchwilio am ansawdd a chydymffurfiaeth bob tair blynedd ac rydym angen eich caniatâd chi er mwyn i'ch data gael ei weld fel rhan o'r broses hon. Mae'n rhaid i Aseswyr Allanol gadw cyfrinachedd mewn perthynas â'ch ffeil oherwydd ei bod yn bwysig nodi eu bod yn asesu ni fel sefydliad ac nid yn asesu chi fel Unigolyn.

- Byddwn yn gofyn i chi a ydych chi'n hapus i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio ar gyfer dibenion archwilio – er mwyn adolygu eich ffeil achos i sicrhau bod y cyngor y gwnaethoch ei dderbyn yn gywir ac yn gyflawn.
- Os nad ydych chi'n cytuno, ni fydd eich data yn cael ei rannu yn ystod yr archwiliad.

## Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

- Mae eich gwybodaeth yn cael ei gadw yn ddiogel am 7 mlynedd.
- Mae'r ffordd yr ydym yn storio ein data yn cael ei achredu i ISO27001 a chydag ardystiad Harbwr Diogel yr UE. Mae'r system reoli Gwaith Achos yn cael ei achredu i ISO27001:2013 Safon Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ac yn

# Polisi Preifatrwydd Cleientiaid SNAP Cymru

gofrestredig gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Rhif Cofrestru ZA029219).

- Mae eich gwybodaeth yn cael ei thynnu oddi yno a'i gwaredu yn ddiogel ar ôl 7 mlynedd.

Rydym yn adolygu ein cyfnodau cadw ar gyfer gwybodaeth bersonol yn rheolaidd ac rydym yn cwrdd ag argymhellion ac ymarfer gorau safonol.

## Rhannu gwybodaeth gyda thrydydd parti

Mae defnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol yn rhan hanfodol o wasanaeth cynghori a gwaith achos, a byddwn yn gofyn i chi am eich caniatâd i rannu eich data pan fydd angen er mwyn hyrwyddo eich achos.

- Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol a sensitif ar gyfer unrhyw ddiben gyda sefydliadau y tu allan i SNAP Cymru heb eich caniatâd pendant chi.
- Os ydych chi'n cytuno, byddwn yn anfon eich gwybodaeth bersonol ymlaen drwy ddangos y ffordd neu atgyfeirio at sefydliadau eraill fel y gallan nhw gynnig eu gwasanaethau i chi.
- Mae eich caniatâd i rannu data yn benodol i'r sefydliad y mae'r data yn cael ei rannu gydag ef. Nid yw'n ganiatâd cyffredinol 'i rannu gyda thrydydd parti'. Byddwn yn gofyn i chi a byddwn yn cofnodi'r manylion ar eich ffeil. Mae adran ar gyfer hanes caniatâd wedi cael ei datblygu fel rhan o'n system rheoli gwaith achos.
- Yr unig eithriad i hyn fyddai os oes angen gwneud atgyfeiriad diogelu neu bod angen inni wneud hynny drwy gyfraith.

## A allaf i gael mynediad at fy ngwybodaeth a'i chywiro?

- Mae gennych chi'r hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi. Os hoffech chi gael copi o rywfaint o'r wybodaeth neu'r holl wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni, trwy e-bost neu drwy ysgrifennu atom os gwelwch yn dda drwy gysylltu â [enquiries@snapcymru.org](mailto:enquiries@snapcymru.org)
- Yn y dyfodol agos, bydd ein cronfa ddata yn darparu swyddogaeth Argraffu Cofnod y Cleient er mwyn sicrhau bod yr holl ddata yn cael ei gynnwys a'i fod ar gael yn hawdd wrth ofyn amdano.
- Byddwn yn ymdrin â'ch cais cyn gynted ag sy'n bosibl, ac yn gyffredinol bob amser o fewn un mis ar ôl derbyn y cais.
- Rydym ni eisiau sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn fanwl gywir ac wedi cael ei diweddarau. Gallwch chi ofyn inni gywiro neu dynnu gwybodaeth yr ydych chi'n meddwl sy'n anghywir oddi ar y ffeil.

# Polisi Preifatrwydd Cleientiaid SNAP Cymru

## Yr 'hawl i gael ei anghofio'

Os ydych chi wedi newid eich meddwl, gallwch chi ofyn inni ddileu neu dynnu eich gwybodaeth yn ôl.

Dywed y gyfraith y dylai tynnu caniatâd fod mor syml â'i roi. Os ydych chi'n tynnu eich caniatâd yn ôl, neu'n gwrthwynebu'r ffordd y mae'n cael ei brosesu, byddwn yn dileu eich gwybodaeth oddi ar ein system. Cysylltwch â ni yn [enquiries@snapcymru.com](mailto:enquiries@snapcymru.com) neu ffoniwch 02920 348990.

## Cwcis y Wefan

Ffeiliau testun sydd wedi cael eu rhoi ar ein cyfrifiadur yw cwcis er mwyn casglu gwybodaeth safonol ynglŷn â mewngofnodi ar y rhyngwrwyd a gwybodaeth ynglŷn ag ymddygiad ymwelwyr. Byddem ni'n defnyddio hwn yn unig i dracio ymwelwyr ar ein gwefan ac er mwyn casglu adroddiadau ystadegol ynglŷn â gweithgaredd y wefan.

Er mwyn cael gwybodaeth bellach, ewch i [www.aboutcookies.org](http://www.aboutcookies.org) neu [www.allaboutcookies.org](http://www.allaboutcookies.org).

Gallwch chi osod eich porwr i beidio â derbyn cwcis ac mae'r gwefannau uchod yn dweud wrthydd chi sut i gael gwared â chwcis o'ch porwr

## Ymdrin ag atgyfeiriadau Plant

Mae gan blant yr un hawliau ag oedolion dros eu data personol. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at eu data personol; gwneud cais i gywiro; gwrthwynebu prosesu a chael dileu eu data personol. Mae cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data, ac yn arbennig, mae tegwch yn ganolog wrth inni brosesu data personol plant.

## Sut i gysylltu â ni

Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n polisi preifatrwydd neu ynglŷn â gwybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi: drwy e-bost at [enquiries@snapcymru.org](mailto:enquiries@snapcymru.org) neu at ein prif Gyfarwyddwr gweithredol Denise Inger, sydd yn rheolwr Diogelu Data [denise.inger@snapcymru.org](mailto:denise.inger@snapcymru.org)

Mae gennych chi hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru (SCG) os ydych chi'n meddwl bod problem gyda'r ffordd yr ydym ni'n ymdrin â'ch data. (Ffon: 029 2067 8400, e-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk))

# Polisi Preifatrwydd Cleientiaid SNAP Cymru

Pan yr ydym yn cyfeirio at blentyn, rydym yn golygu unrhyw un o dan 18 oed. Mae hyn yn unol â Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn sy'n diffinio plentyn fel unrhyw un o dan 18 os nad, "o dan y gyfraith sy'n berthnasol i'r plentyn, cyrhaeddir llawn oed yn gynt" (Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd dros Hawliau Dynol, 1989).

Pan ydym ni'n cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhieni dros blentyn, rydym ni yn golygu rhywun sydd, yn unol â'r gyfraith yn y wlad lle mae'r plentyn yn preswyllo, sydd â hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol dros blentyn sydd fel arfer yn cael eu rhoi i'r rheini. Ni fydd y rhain bob amser yn 'rieni naturiol' y plentyn, a gall fod gan fwy nag un unigolyn naturiol neu gyfreithiol gyfrifoldeb rhieni.